# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 17 Chwefror 2015 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid a Datblygu Gwledig; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Bill Cowie, Meirick Davies, Martyn Holland, Gwyneth Kensler, Dewi Owens, Merfyn Parry, Joe Welch a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM); Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW); Gwasanaethau Oedolion a Busnes (PG); Prif Gyfrifydd (RW); Rheolwr Gofal a Chefnogaeth Tai (JS); Swyddog Taliadau Gwasanaeth (DO); Rheolwr y Rhaglen Moderneiddio Addysg (JC), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Bobby Feeley (Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Oedolion a Phlant) a David Smith (Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus)

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Y Cynghorydd Meirick Davies - Personol - Eitem 7 – yn rhentu garej gan y Cyngor
Y Cynghorydd Martyn Holland - Personol - Eitem 5 - Llywodraethwr Ysgol Bro Famau
Y Cynghorydd Huw Williams – Personol - Eitem 5 – Â phlentyn yn mynychu Ysgol Pen Barras

## 3 MATERION BRYS

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2015

***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - YSGOLION CYNRADD ARDAL RHUTHUN - YSGOL LLANBEDR

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams adroddiad briffio’r Cabinet ar benderfyniad diweddar y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynglŷn â dyfodol Ysgol Llanbedr ac yn ceisio cymeradwyaeth i ddechrau ymgynghori â'r Eglwys yng Nghymru ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr ac yn adrodd yn ôl i'r aelodau ar hynny.

Roedd y Gweinidog wedi gwrthod y cynnig i gau'r ysgol oherwydd iddo ddod i'r casgliad, er bod yna ddadleuon addysgol cadarn o blaid y cynnig, roedd yr ymgynghoriad yn ddiffygiol. Yn dilyn adolygiad o'r llythyr penderfyniad, roedd swyddogion wedi argymell ymgynghori'n ffurfiol gyda'r Esgobaeth ar ddyfodol yr ysgol. Dywedodd y swyddogion fod gan yr Esgobaeth opsiynau amgen ar gyfer yr ysgol ac y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei cheisio yn ystod y broses ymgynghori i ganfod a fyddai unrhyw gynnig amgen yn mynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd. Trafododd y Cabinet y ffordd ymlaen yng ngoleuni'r wybodaeth a gyflwynwyd a chadarnhawyd mai diben yr adroddiad heddiw oedd peidio â thrafod cau’r ysgol, ond i geisio cymeradwyaeth i ddechrau ymgynghori â'r Eglwys yng Nghymru. Byddai canlyniad y trafodaethau hynny yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ebrill/Mai. Eglurwyd hefyd na fyddai’r canlyniad yn effeithio ar weddill cynigion adolygiad ardal Rhuthun.

Roedd y Cynghorydd Huw Williams yn gwrthwynebu cau yr ysgol ac yn siomedig bod y mater wedi'i ddwyn gerbron y Cabinet mor fuan ar ôl i’r Gweinidog wrthod y cynnig. Amlygodd fod diffygion ymgynghori wedi eu nodi er gwaethaf sicrwydd blaenorol yn hynny o beth gan swyddogion ac yn dilyn cael ei alw i mewn gan y Pwyllgor Archwilio Cymunedau. Cyfeiriwyd hefyd at y straen a achoswyd i staff, rhieni a disgyblion yr ysgol o ganlyniad. Wrth ystyried y camau nesaf dywedodd y Cynghorydd Williams fod nifer y disgyblion yn cynyddu a gofynnwyd bod yr ysgol yn cael cyfnod o sefydlogrwydd i ffynnu - anogodd y Cabinet i beidio â chychwyn ymgynghoriad ffurfiol ar gau’r ysgol ond bod y mater yn cael ei ohirio hyd nes y ceir trafodaeth anffurfiol gyda’r Esgobaeth yn y lle cyntaf. Siaradodd y Cynghorydd Joe Welch hefyd i gefnogi'r ysgol, gan dynnu sylw at fod cyllid yn ei le i fwrw ymlaen â chynigion adolygiad ardal Rhuthun ac nad oedd yn ddibynnol ar gau yr ysgol. Roedd yn anhapus bod y swyddogion yn bwriadu ailddechrau ymgynghori ar gau’r ysgol a chododd gwestiynau ynglŷn â chost y broses ymgynghori. Anogodd y Cynghorydd Dewi Owens hefyd y Cabinet i gymryd amser i fyfyrio, yn enwedig yng ngoleuni'r rhagamcanion disgyblion, ac argymhellodd ymgynghori ehangach.

Darparwyd yr ymatebion canlynol i’r materion a godwyd -

- Roedd y Gweinidog yn fodlon bod gan y Cyngor achos addysgol cydlynol ar gyfer cau Ysgol Llanbedr a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Borthyn
- Yn feirniadol roedd y Gweinidog yn fodlon y byddai'r cynnig yn sicrhau dosbarthiad tecach a mwy cyfartal o gyllid rhwng ysgolion prif ffrwd yn y sir
- Sir Ddinbych oedd yr awdurdod lleol cyntaf i weithio at y Cod Trefniadaeth Ysgolion newydd ac nid oedd y diffygion ymgynghori a nodwyd gan y Gweinidog wedi cael eu codi o'r blaen mewn unrhyw fforwm arall
- Nid oedd swyddogion ac aelodau o reidrwydd yn cytuno â chanfyddiadau'r Gweinidog ac er fod adolygiad barnwrol wedi cael ei ystyried, nid oedd yn

gyfystyr â’r defnydd gorau o amser ac adnoddau a chafodd yr opsiwn i ail-gychwyn ymgynghori ei argymell yn lle hynny – roedd costau ymgynghori wedi cael eu bodloni o fewn cyllideb y gwasanaeth

- Byddai trafodaethau anffurfiol yn cael eu cynnal gyda’r Esgobaeth yn atodol i’r cyfnod ymgynghori ffurfiol o 28 diwrnod. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynigion amgen a fyddai’n ymdrin â'r materion allweddol a byddai'r Esgobaeth yn cael eu gwahodd i gyflwyno’r cynigion hynny i’r aelodau
- roedd yn ofynnol i'r Cyngor i fynd i'r afael â’r lleoedd dros ben ar draws Sir Ddinbych gyfan ac adrodd yn ôl ar hynny i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn
- Rhoddwyd sicrwydd na fyddai cefnogaeth i’r ysgol yn cael ei lleihau yn y cyfamser, beth bynnag fo'r canlyniad.

Ar ôl ystyried y llythyr y Gweinidog a’r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth, roedd y Cabinet yn awyddus i daclo dyfodol yr ysgol cyn gynted ag y bo modd a rhoi diwedd ar y cyfnod o ansefydlogrwydd. Cytunodd y Cabinet fod angen ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol gyda'r Eglwys yng Nghymru yn y lle cyntaf ac y dylid adrodd canlyniadau’r trafodaethau hynny yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried.

***PENDERFYNWYD** - bod y Cabinet yn:-*

*(a)* *nodi cynnwys llythyr y Gweinidog, gweler Atodiad 1 yr adroddiad*

*(b)* *cytuno bod y swyddogion yn dechrau ymgynghori â'r Eglwys yng Nghymru ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr ac yn adrodd yn ôl i'r aelodau.*

## 6 GWEITHREDU DEDDF TAI CYMRU 2014

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Irving yr adroddiad yn ymwneud â gofyniad a osodir ar awdurdodau lleol Cymru i benderfynu pa grwpiau o bobl ddigartref y bydd yn cymhwyso'r prawf o "ddigartref yn fwriadol", yn dilyn gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 yn Ebrill 2015.

Darparwyd diffiniad o ddigartrefedd yn fwriadol o dan y Ddeddf newydd ynghyd â manylion am y grwpiau hynny y gallai'r prawf gael ei ddefnyddio arnynt. Er mai bwriad Llywodraeth Cymru yn y dyfodol oedd cael gwared ar y prawf bwriadoldeb ar gyfer yr holl deuluoedd o tua mis Ebrill 2019, roedd y swyddogion o’r farn, am resymau ymarferol, na fyddai'n amserol nac yn briodol i'w dynnu o unrhyw grŵp unigol ar hyn o bryd. O ganlyniad, argymhellwyd nad oedd y Cyngor yn eithrio unrhyw un o'r grwpiau cymwys hynny a’i fod yn parhau i ddefnyddio’r prawf ar gyfer pob un ohonynt.

Eglurodd y swyddogion na fyddai cymeradwyo'r argymhelliad yn arwain at unrhyw newid i bolisi presennol y Cyngor ond byddai’n cynnal y sefyllfa bresennol nes byddai Llywodraeth Cymru yn cael gwared ar y prawf. Byddai'r prawf yn parhau fel cymorth i bobl yn hytrach na mesur cosbol. Trafododd y Cabinet gyda swyddogion y rhesymau dros beidio gwared ar y prawf bwriadoldeb ar hyn o bryd a darparodd y swyddogion enghreifftiau o'r mathau o aelwydydd digartref a gyflwynir i'r awdurdod, y defnydd o’r prawf bwriadoldeb yn ymarferol, a sut gallai ymgysylltu cadarnhaol fod o fudd i unigolion a theuluoedd a darparu tenantiaethau cynaliadwy gan helpu lliniaru'r risg busnes i landlordiaid. Nodwyd bod penderfyniadau bwriadoldeb yn

brin ac yn cynrychioli tua 5% o'r holl benderfyniadau a wnaed yn 2014. Roedd y Cabinet yn cydnabod y manteision o gymryd safbwynt dros dro hyd nes y ceir gwared ar y prawf yn y dyfodol lle byddai’r prawf yn cael ei ddefnyddio mewn modd cadarnhaol i annog cydweithredu ac ymgysylltu gydag aelwydydd i fynd i'r afael â’r materion ac anghenion creiddiol, a datblygu cydweithio agosach gydag asiantaethau partner er mwyn darparu fframwaith amlasiantaeth gydgysylltiedig ar gyfer aelwydydd digartref ag anghenion cymorth heb eu bodloni. Cydnabuwyd hefyd y byddai'r dull hwn yn debygol o leddfu'r pwysau ar wasanaethau eraill y Cyngor, yn enwedig y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Amlygwyd hefyd yr angen i gymryd amser i sefydlu fframwaith priodol ar gyfer pryd fydd y prawf yn cael ei dynnu yn ôl, a darparwyd sicrwydd bod ymagwedd gyson yn cael ei chymryd gan awdurdodau cyfagos nad oedd yn cefnogi cael gwared ar y prawf ar hyn o bryd.

Cwestiynodd yr Arweinydd y goblygiadau ariannol oedd yn codi o'r argymhellion a dwedodd y swyddogion fod arian cyfrifoldebau newydd yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r gweithgareddau ychwanegol ehangach a roddir ar awdurdodau lleol yn deillio o weithredu’r Ddeddf Tai. Cadarnhawyd y byddai adroddiadau i'r Cabinet yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth am y cyd-destun ariannol ehangach.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno nad yw Cyngor Sir Ddinbych yn eithrio unrhyw un o'r grwpiau a enwir dan adran 2 yr adroddiad ond, yn hytrach, yn parhau i gynnal "prawf bwriad" ar bob un ohonynt ac yn cyhoeddi ei fwriad i wneud hynny yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru fel y manylwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 7 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2015/16

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i’r cynnydd arfaethedig mewn rhent a chyflwyno taliadau gwasanaeth, a chymeradwyo’r Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2015/16. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ymadawiad y Cyngor o'r system HRAS ym mis Ebrill 2015 ac roedd y Cynghorydd Hugh Irving yn falch o adrodd ar ymgysylltiad cadarnhaol y pedwar cynrychiolydd tenantiaid ar y Gweithgor HRAS a’u cyfraniad gwerthfawr i'r broses honno.

Arweiniodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr aelodau drwy ffigurau’r gyllideb a oedd wedi eu cyfrifo gan ystyried y polisi rhent newydd, dad-gronni taliadau gwasanaeth, mecanwaith ar gyfer codi rhenti a chyflwyno tâl gwasanaeth sefydlog lle bo hynny'n berthnasol. Adroddodd y Swyddog Taliadau Gwasanaeth bod tâl gwasanaeth amrywiol wedi cael ei argymell yn y lle cyntaf, ond oherwydd bod 90% o denantiaid ar gontractau blynyddol tymor penodol, byddai’n fwy priodol i gyflwyno tâl gwasanaeth tymor penodol a phasio'r arbedion dilynol ymlaen i’r tenantiaid.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol -

- Roedd y Cynghorydd Huw Jones yn awyddus i sicrhau bod yr adolygiad arfaethedig o garejys y cyngor yn cael ei wneud - cytunwyd i gynnwys yr adolygiad yn y penderfyniad

- amlygwyd nad oedd rhai garejys y cyngor yn cael eu defnyddio'n briodol a darparodd swyddogion sicrwydd y byddai camau yn cael eu cymryd yn erbyn y rhai a oedd yn defnyddio garejys y cyngor yn groes i'w telerau tenantiaeth
- Darparwyd esboniad ynglŷn â defnyddio'r meini prawf ar gyfer rhenti targed gyda chamau'n cael eu cymryd i gynyddu rhenti yn raddol er mwyn cwrdd â ffigurau rhent targed Llywodraeth Cymru ar gyfer pob eiddo unigol erbyn 2015/16
- roedd rhywfaint o anfodlonrwydd ynghylch cyfrifiad Llywodraeth Cymru o renti cyfartalog nad oedd yn cymryd i ystyriaeth ffyniant o fewn gwahanol ardaloedd, ond derbyniwyd bod yr elfen hon tu allan i reolaeth y Cyngor
- roedd yr aelodau'n falch o nodi bod elfen o adeiladau newydd wedi cael eu cynnwys yng Nghynllun Busnes y Stoc Tai a fyddai'n darparu llety o ansawdd da ar gyfer trigolion Sir Ddinbych – pwysleisiwyd yr angen i roi cyhoeddusrwydd i'r mater hwn fel stori newyddion da
- cadarnhaodd y swyddogion nad oedd unrhyw ddibyniaeth ar werthiannau Hawl i Brynu fel ffynhonnell arian ar gyfer Cynllun Busnes y Stoc Tai gyda'r elfen hon wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd i ragolwg o ddim ond un gwerthiant y flwyddyn.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) Mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2015/16 (Atodiad 1) a Chynllun Busnes y Stoc Tai (Atodiad 2);*

*(b) Codi rhenti anheddau'r Cyngor yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 i rent wythnosol cyfartalog o £74.93 o ddydd Llun 6 Ebrill 2015 ymlaen;*

*(c) Codi rhenti garejis y Cyngor yn unol â'r cynnydd mewn rhent ar gyfer anheddau'r Cyngor;*

*(d) Cyflwyno costau gwasanaeth cyfartalog o £1.99 yr wythnos lle bo'n berthnasol yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014;*

*(e) Cynnal adolygiad o safleoedd garej yn 2015/16 fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Asedau, a derbyn adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad erbyn 31 Rhagfyr 2015 fan bellaf.*

Ar y pwynt hwn (11.40 am) cafwyd egwyl ar gyfer paned.

## 8 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau a nodwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2015/16 fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol (GBS) ac y manylwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Aeth y Cynghorydd Thompson-Hill â'r aelodau drwy'r adroddiad ac ymhelaethodd ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer buddsoddi cyfalaf i brosiectau un tro a dyraniadau bloc ar gyfer rhaglenni parhaus o waith. Cyfeiriwyd at waith y GBS wrth adolygu ceisiadau ar gyfer dyraniadau ynghyd â materion a gododd yn ystod y broses

honno a chrynodeb o'r argymhellion. Gan nad oes cyllid cyfalaf digonol ar gael i dalu am yr holl brosiectau mae nifer o gyn-ddyraniadau o dderbyniadau cyfalaf yn y dyfodol wedi cael eu hargymell.

Mynegwyd cwestiynau ynghylch y rhaglen adnewyddu goleuadau stryd o £2m ac eglurwyd er mwyn bodloni'r gofyniad i gyflwyno ceisiadau am gyllid Salix y Llywodraeth yn flynyddol, cynigiwyd y dylid cymryd benthyciad blynyddol o tua £335k bob blwyddyn dros chwe blynedd ar sail dreigl, yn ad-daladwy o'r arbedion a wneir o'r flwyddyn flaenorol. Roedd y rhaglen yn cynnwys ailosod y llusernau presennol gyda llusernau LEA newydd a ddylai ddarparu arbedion sylweddol ar gostau ynni a chynnal a chadw. Soniodd y Cynghorydd Bill Cowie am y goleuo gwael yn y Groesfan Pelican yn Llanelwy (A525) ers i oleuadau stryd LEA gael eu gosod a gofynnodd am i'r mater gael ei ymchwilio cyn i'r cynnig gael ei ystyried yn y Cyngor llawn. Cytunodd y Cynghorydd Thompson-Hill i gysylltu â'r Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol dros y Parth Cyhoeddus yn uniongyrchol mewn perthynas â hynny. Ymatebodd hefyd i gwestiynau pellach ynghylch allyriadau carbon, gan gadarnhau bod adeiladau'r cyngor yn cael eu monitro mewn perthynas â hyn a bod cynlluniau ynni effeithlon wedi cael eu cyflwyno mewn rhai ardaloedd.

Roedd yr Arweinydd yn teimlo bod y broses o adolygu ceisiadau a dyrannu cyfalaf yn gadarn ond gofynnodd am ystyried sut i fesur gwerth am arian ac effaith buddsoddi cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod. Cytunodd y Cynghorydd Thompson-Hill â'r awgrym hwnnw - cytunodd hefyd i ddarparu manylion pellach ynghylch aelodaeth y GBS yn adroddiadau'r dyfodol a chadarnhaodd bod presenoldeb da mewn cyfarfodydd ar y cyfan.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cefnogi'r prosiectau yn atodiad 1 sydd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2015/16 a'u hargymell i'r Cyngor llawn.*

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant net o £639k ar y gyllideb refeniw ar draws cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- cytunwyd ar arbedion o £7.1miliwn fel rhan o'r gyllideb ac ar hyn o bryd ystyrir bod 90% o'r rhain wedi eu cyflawni, gyda 10% ar waith
- amlygwyd y prif amrywiadau oddi wrth gyllidebau neu dargedau arbedion meysydd gwasanaeth unigol
- cafwyd diweddariad cyffredinol ynglŷn â'r Cyfrif Refeniw Tai; Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd gymeradwyo trosglwyddo £100k i gronfa wrth gefn i ariannu gwelliannau i fand eang ysgolion yn 2015/16.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol -

- Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol i gwestiynau ynghylch Datblygu Harbwr y Rhyl gan gadarnhau ei fod wedi cael nifer da yn ei ddefnyddio yn ystod ei flwyddyn gyntaf - byddai adolygiad manylach yn cael ei gynnal ar ôl ei flwyddyn lawn gyntaf o weithredu
- mynegwyd pryderon ynghylch penderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru lle roedd grantiau amrywiol yn cael eu dyfarnu (ac mewn un achos yn cael ei dynnu yn ôl) ar gam mor hwyr yn y flwyddyn ariannol fel ei fod yn achosi anawsterau i Gynghorau yn cynllunio eu strategaethau ariannol a chynlluniau cyllido - cyfeiriwyd yn arbennig at benderfyniad hwyr Llywodraeth Cymru i ddyfarnu £1.5m i Gynghorau i'w wario ar offer chwarae erbyn diwedd mis Mawrth 2015 tra ar yr un pryd yn dod â thoriadau sylweddol y gyllideb - ystyriwyd bod pe bai cyllid ar gael dylid ei ddyrannu ymlaen llaw i helpu amddiffyn cynghorau yn erbyn y toriadau gwaethaf
- Hefyd, codwyd pryderon ynglŷn â dyfodol TAITH gan fod cymaint o gyfrifoldeb y bwrdd rhanbarthol hwnnw wedi cael ei diddymu gan Lywodraeth Cymru - tra gellid gwneud cynlluniau ar sail ranbarthol, byddai angen i awdurdodau lleol wneud cais am gyllid yn unigol ac nid ar sail gydlynol. Dywedodd y Cynghorydd Eryl Williams fod y model rhanbarthol wedi gweithio'n effeithiol a bod rhoi'r gorau i'r gwaith hwnnw yn gam yn ôl ac yn groes i weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cydweithio rhanbarthol - gofynnodd am godi'r mater yn uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru
- Ailadroddodd yr aelodau hefyd bryderon blaenorol a godwyd am golli incwm o Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a'r effaith ar y gyllideb refeniw
- nodwyd na fyddai newidiadau a gymeradwywyd mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cludiant Ysgol yn cael effaith ar unwaith, ond byddai'n cael ei ddatrys i raddau helaeth yn y tymor hir
- Darparwyd diweddariadau ar y prosiectau cyfalaf mawr a rhoddwyd ymatebion i gwestiynau a godwyd ar brosiectau unigol. Teimlai'r Cynghorydd Eryl Williams y byddai budd mewn darparu lluniau o'r prosiectau mawr yn y Cyngor llawn.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Cabinet yn:-*

*(a)* *nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb;*

*(b)* *cymeradwyo trosglwyddo £100 mil i gronfa wrth gefn i ariannu gwelliannau i fand eang ysgolion yn 2015/16;*

*(c)* *anfon llythyr at Lywodraeth Cymru ynglŷn â phryderon y Cabinet o ran cynigion y Gweinidog mewn perthynas â TAITH.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried. Nododd yr Aelodau y byddai adroddiad ar y Strategaeth Hirdymor ar gyfer yr Ystâd Amaethyddol yn cael ei ychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer mis Mawrth.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45pm.